Briff Tystiolaeth

# Craffu Blynyddol ar Cyfoeth Naturiol Cymru gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig 2020.

## Diweddariad ar y briffio ar faterion allweddol a chynnydd a wnaed ers mis Chwefror 2019.

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad
2. COVID-19
3. Adferiad Gwyrdd
4. Parhad Busnes Parhaus
5. Llifogydd
6. Paratoi ar gyfer Brexit
7. Yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol
8. Diweddariad ar ein staff uwch


### 1. Cyflwyniad

1.1. Rwyf yn edrych ymlaen at drafod ein cynnydd gyda'r pwyllgor ym mis Rhagfyr. Byddwch yn ymwybodol mai dyma'r sesiwn a gafodd ei gohirio o fis Mawrth 2020, i ystyried ein perfformiad dros y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2019, a deallaf fod y pwyllgor yn cynnal sesiwn arall ar gyfer 2019-2020 yn dilyn cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

1.2. Felly, rwyf yn cynnwys y briffio a gyflwynwyd yn wreiddiol ym mis Chwefror 2020, ond mae'r nodyn eglurhaol hwn yn cyfeirio at ambell newid allweddol sydd wedi digwydd ers iddo gael ei ysgrifennu:

### 2. COVID-19

2.1. Y broblem allweddol ers y briffio ym mis Chwefror yw COVID-19, wrth gwrs, fel y trafodwyd yn ystod ein cyfarfod gyda'r pwyllgor ym mis Gorffennaf. O ganlyniad, rydym wedi gweld hyd yn oed mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd natur a mannau gwyrdd, gyda phwyslais o’r newydd ar y newid yn yr hinsawdd a'i effaith ar yr amgylchedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi bod yn cefnogi Llywodraeth Cymru gyda'r gwaith ar yr adferiad gwyrdd.

2.2. Yr wyf i a'r bwrdd yn parhau i fod yn hapus gyda'r ffordd mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymdopi â’r pandemig cyntaf, a'r ffordd mae'r staff wedi aros yn ymrwymedig drwy'r cyfnod. Mae ein system TGCh wedi ymdopi â’r ffaith bod ein staff yn gweithio gartref, ac mae sawl un o'n timau gwaith maes yn weithredol, lle maent yn gallu sicrhau eu bod yn bodloni'r canllawiau diogelwch yn ôl y gofyn.

2.3. Yn amlwg, bu effaith ar ein darpariaeth, a’n partneriaid, cyflenwyr ac ati, er ein bod wedi parhau i ddarparu ein gwasanaethau sydd â blaenoriaeth uchel, er enghraifft, yr ymateb i ddigwyddiad y trên yn dod oddi ar y cledrau yn Llangennech ar ddiwedd yr haf.

2.4. Fodd bynnag, gwnaethom adolygu pob un o'n mesurau cyflawni er mwyn ystyried beth oedd yn bosibl, ac o ganlyniad, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein Cynllun Busnes ar gyfer 2020-2021. Bydd yn cael ei gyhoeddi yn hwyrach yn y mis, a byddwn yn anfon copi i'r pwyllgor cyn gynted ag y bydd ar gael. Rydym hefyd wedi archwilio'r effaith ar ein cyllidebau ac wedi gweithio’n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid digonol gennym ar gyfer ein hardaloedd o flaenoriaeth uchel.

## 3. Adferiad Gwyrdd

3.1 Mewn rhai achosion, rydym wedi ychwanegu meysydd ychwanegol o waith, yr un mwyaf sylweddol yw'r un ynghylch Adferiad Gwyrdd. Fel y byddwch yn ymwybodol o'm llythyr at y pwyllgor ym mis Mehefin 2020, gwnaeth Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig gomisiynu cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru, Syr David Henshaw, i arwain tasglu i ddatblygu syniadau sy'n cysylltu gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd â chreu swyddi, twf economaidd cynhwysol a theg, a blaenoriaethau datblygu eraill.

3.2 Mae'r grŵp wedi bod yn canolbwyntio ar y gwaith o gyflawni camau gweithredu sy'n ymarferol ac sydd wedi'u blaenoriaethu ac sy'n defnyddio'r offerynnau yn neddfwriaeth Cymru a'r arbenigedd sy'n rhan annatod o'i chymunedau i lywio cynigion hirdymor sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Risg allyriadau carbon a'r hinsawdd
- Gwrthdroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth
- Cysylltu pobl â natur drwy fuddsoddi mewn seilwaith gwyrdd

3.3 Mae grŵp o arbenigwyr Syr David yn cynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe, ynghyd ag uwch gynrychiolwyr busnes, sefydliadau amgylcheddol anllywodraethol, y sector ffermio, y trydydd sector a llywodraeth leol. Bydd y grŵp yn rhoi eu hadroddiad i'r Gweinidog ar ddiwedd mis Tachwedd. Unwaith eto, byddwn yn sicrhau bod y pwyllgor yn cael y cyfle i weld canfyddiadau'r grŵp cyn gynted ag y bo'r adroddiad wedi'i gyhoeddi.

3.4 Er mwyn cefnogi cysylltiad pobl â natur yn ystod y pandemig, trwy fynediad diogel i'r tir sy'n eiddo i, ac a reolir gan sefydliadau anllywodraethol amrywiol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi creu grant cyllid dynodedig strategol. Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru ill dau gyfrannu £600,000 yr un er mwyn creu cyfanswm o £1.2 miliwn mewn grantiau er mwyn helpu i roi hwb i adferiad gwyrdd y wlad yn dilyn pandemig y coronafeirws. Nod yr arian yw sicrhau bod y grwpiau sy'n rheoli ac yn gofalu am yr amgylchedd yn gallu agor a gweithredu'n ddiogel wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio. Mae'r grantiau hyn bellach wedi'u dyrannu i Coed Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar a Plantlife.

## 4. Parhad Busnes Parhaus

4.1. Rydyn ni, wrth gwrs, yn cynllunio ymlaen llaw er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni'n gwaith â blaenoriaeth dros gyfnod yr hydref/gaeaf, gan ystyried y sefyllfa waethaf posibl a beth y gallwn gynllunio a pharatoi ar hyn o bryd i leihau'r pwysau.

4.2. Mae rhai o'n hadeiladau wedi ailagor, ac mae system gadarn ar waith er mwyn galluogi staff nad ydyn nhw'n gallu gweithio gartref yn effeithiol i'w defnyddio. O bryd i'w gilydd, mae adeiladau wedi gorfod cau dros dro oherwydd achosion tybiedig o COVID-19, ond mae'r system yn ein galluogi ni i gau'r swyddfeydd yn gyflym, gan sicrhau bod yr holl aelodau staff wedi'u hysbysu, a threfnu eu bod yn cael eu glanhau'n drylwyr os bydd angen. Byddwn yn parhau i adolygu ein defnydd o'n swyddfeydd wrth i'r canllawiau newid dros fisoedd yr hydref a'r gaeaf, gan gydnabod y gall fod angen inni 'ddiogelu' rhai o'n swyddfeydd ar gyfer gwaith ymateb i ddigwyddiadau.

4.3. Cynhaliwyd ymarfer strategol ("Ymarfer Trident") ar 2 Medi er mwyn profi ein parodrwydd ar gyfer delio â digwyddiadau cydamserol (megis COVID-19, Brexit a llifogydd neu unrhyw ddigwyddiadau amgylcheddol eraill). Roedd hyn yn cynnwys ein hymatebwyr digwyddiadau strategol (ein Tîm Gweithredol a'n Rheolwyr Strategol ar Ddyletswydd) ac fe'n galluogodd i asesu'r ffordd y byddem yn rheoli digwyddiadau niferus gyda llai o staff ar gael. Profwyd nifer o elfennau, gan gynnwys y ffordd y byddem yn blaenoriaethu ein gwaith a pharhau i warchod pobl rhag unrhyw niwed a gwarchod yr amgylchedd, y ffordd y byddem yn symud yr adnoddau er mwyn canolbwyntio ar ein blaenoriaethau, y ffordd y byddem yn cefnogi'n partneriaid amlasiantaeth, y ffordd y byddem yn rheoli'n enw da a sicrhau cyfathrebu da gyda'r cyhoedd, Llywodraeth Cymru a'n partneriaid eraill.

4.4. Mae'r gwaith bellach wedi dechrau o ddifrif er mwyn creu sefydliad carbon isel gwydn, hyblyg ac effeithiol yn dilyn COVID-19, gan adeiladu ar werthoedd sefydliadol Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn galluogi ein pobl a'n partneriaid i

gyflawni ein Hamcanion Llesiant. Roedd bwrdd y rhaglen adnewyddu wedi cwrdd ym mis Medi am y tro cyntaf ac maent yn parhau i gwrdd bob pythefnos.

4.5. Rydym yn parhau i fod yn ymwybodol bob amser o'r pwysau ar ein staff a'r cymorth iechyd meddwl y gallai fod ei angen ar rai yn ystod y cyfnodau anodd hyn. Mae'r gefnogaeth hon yn cael ei chyfleu’n glir drwy ein Cynlluniau Gweithredu Llesiant a'n dulliau cyfathrebu mewnol rheolaidd, ac mae’n cynnwys amrywiaeth o adnoddau megis cyfeirio at fentrau megis Amser i Siarad gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chanllawiau i reolwyr er mwyn iddynt gefnogi aelodau o staff sy'n gweithio'n unigol neu o bell. Mae gan yr holl staff fynediad at ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr sy'n cynnwys llinell gymorth 24awr, ac ar hyn o bryd, mae gennym oddeutu 90 o gynorthwywyr cymorth cyntaf iechyd meddwl cymwysedig ymhlith ein timau.

## 5. Llifogydd

5.1 Fel y byddwch yn ymwybodol o'n sesiwn gyda'r pwyllgor y bwriadwyd ei chynnal ar 12 Tachwedd, rydym bellach wedi cyhoeddi ein hadroddiadau ynghylch y llifogydd ym mis Chwefror. Mae'r pedwar adroddiad a adolygwyd yn annibynnol yn archwilio gweithdrefnau a chamau gweithredu Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys perfformiad amddiffynfeydd rhag llifogydd a'r gwasanaeth rhybuddio am lifogydd yng nghyd-destun yr amodau eithriadol yn gynharach eleni. Gwnaethant edrych hefyd ar y ffordd y mae'r sefydliad yn rheoli'r tir o dan ei ofal er mwyn deall a wnaeth unrhyw weithrediadau rheoli tir a wnaed gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn y llifogydd gyfrannu at y ffordd yr effeithiwyd ar y cymunedau.

5.2 Canfu'r adroddiadau bod y penderfyniadau a'r camau gweithredu a gymerwyd gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru wedi chwarae rôl sylweddol wrth leihau effeithiau a allai fod wedi bod yn llawer mwy difrifol ledled Cymru. Gwnaeth cau llifddorau, gosod rhwystrau symudol a chlirio adeileddau sicrhau y cafodd sawl ardal ei diogelu'n effeithiol rhag y dyfroedd.

5.3 Fodd bynnag, roedd graddfa'r tywydd eithafol yn golygu bod gweithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru o dan straen ar adegau. Roedd hyn yn cynnwys ein gallu i ymateb i'r digwyddiadau anrhagweledig a oedd yn gwaethygu'n hynod gyflym ar lawr gwlad, neu i gasglu arsylwadau gweledol i gefnogi’r gwaith o gyhoeddi rhybuddion llifogydd.

5.3 Cyhoeddwyd 243 o rybuddion llifogydd - byddwch yn barod, 181 o rybuddion llifogydd a chwe rhybudd llifogydd difrifol ym mis Chwefror, sef y nifer uchaf erioed a oedd yn galluogi pobl i gymryd camau i leihau'r effaith ar eu hunain, eu teuluoedd a'u heiddo. Fodd bynnag, ni chafodd 12 o rybuddion llifogydd eu cyhoeddi pan ddylent fod wedi’u cyhoeddi, gyda chwe rhybudd llifogydd yn cael eu cyhoeddi’n hwyr. Bellach, rydym wedi gwneud gwelliannau uniongyrchol i helpu i leihau'r

tebygolrwydd o hyn yn digwydd eto mewn digwyddiad o ar raddfa debyg, ac mae'r adolygiad yn argymell camau gweithredu tymor hwy ar gyfer gwneud gwelliannau pellach. Edrychwn ymlaen at drafod yr adroddiadau hyn a'u hargymhellion gyda'r pwyllgor  maes o law.

**6. Paratoi ar gyfer Brexit**

6.1 Yn ddiweddar, gwnaethom ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar Ymadael â’r Undeb Ewropeaidd: Paratoadau yng Nghymru ar gyfer diwedd y cyfnod pontio.

6.2 Yn yr ymateb hwn, rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n galed er mwyn darparu sicrwydd a datblygu mesurau lliniaru ar gyfer peryglon sectoraidd penodol, ac maent wedi nodi’n flaenorol na fydd unrhyw newid i lefel y diogelwch amgylcheddol, na'r safonau amgylcheddol yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi ymrwymiad tebyg yn y gorffennol. Fodd bynnag, rydym yn debygol o weld newidiadau trwy ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru a'r DU dros amser. Gallai unrhyw "wahaniaeth rheoliadol", er enghraifft, o ganlyniad i gytundebau masnach gyda gwledydd eraill,  gael effaith ar gylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru. Gallai ansicrwydd ynglŷn â'r newidiadau llywodraethu posibl gan gynnwys trosglwyddo swyddogaethau, fod â goblygiadau sylweddol ar gyfer rôl a chylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru.

6.3 Mae COVID-19 wedi galluogi Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnal 'prawf straen' yn achos senario heb gytundeb. Fodd bynnag, mae delio ag effeithiau COVID-19 hefyd wedi effeithio ar barodrwydd Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ac wedi effeithio ar wydnwch sectoraidd. Gallai effeithiau cyfochrog COVID-19 fel 'effaith luosogi', er enghraifft os bydd ail don yn cyfuno â chanlyniad heb gytundeb masnach, waethygu'r peryglon i gynllunio parodrwydd ac amhariad cysylltiedig.

6.4 Mae cyfathrebu effeithiol a chyflym rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn allweddol i sicrhau parodrwydd ar draws y DU. Mae angen cyfathrebu clir ac amserol rhwng Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid sectoraidd gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cyhoedd i'n cyfeirio at y newidiadau perthnasol i'r prosesau. Bydd hefyd yn hanfodol i amlygu lle mae parhad er mwyn cadw cydymffurfiaeth, er enghraifft, perthnasedd parhaus mesurau diogelu amgylcheddol cynefinoedd statudol  a chyfrifoldebau cysylltiedig rhanddeiliaid..

6.5 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar feysydd polisi amrywiol i baratoi ar gyfer ymadael â'r UE, wedi’i gydlynu trwy Rhaglen Newid yr UE gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Er enghraifft, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda'r gangen Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig er mwyn datblygu senarios a ddiweddarwyd ar gyfer ymadael â'r UE er mwyn parhau i bennu cwmpas goblygiadau posibl. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i

ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â'r cyllid yn y dyfodol er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu dulliau diogelu parhaus ar gyfer safleoedd a nodweddion Natura 2000 yn y tymor hwy yn dilyn ymadael â'r UE.

6.6. Mae paratoadau eraill yn cynnwys:

- Recriwtio staff ar draws meysydd gweithrediadau a pholisi er mwyn llenwi amrediad o rolau, gan gynyddu gallu a meithrin gwydnwch timau swyddogaethol.
- Sefydlu rhaglenni Brexit ffurfiol ar gyfer gwaith heb gytundeb ac ar gyfer gwaith polisi a gwaith rheoliadol sy'n cynnig diweddariadau i bob cyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Mynychu cyfarfodydd o amgylch y bwrdd ar gyfer trawsnewid UE y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a chefnogi'r saith gweithgor;
- Sicrhau bod ymadael â'r UE yn cael sylw blaenllaw yn ein trafodaethau ar lefel strategol a pholisi gyda Llywodraeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England, y Comisiwn Coedwigaeth, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban, Treftadaeth Naturiol yr Alban ac Asiantaeth Diogelu Amgylchedd Iwerddon.

**7. Datblygu'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol**

7.1. Yn dilyn cyhoeddi fersiwn drafft yr Adroddiad Interim ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Rhagfyr 2019, rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i baratoi Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 terfynol i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr eleni. Byddwn yn sicrhau bod aelodau'r pwyllgor yn derbyn manylion am yr adroddiad pan fydd ar gael.

**8. Diweddariad ynghylch Staffio Uwch**

8.1 Rwyf yn falch bod y Tîm Gweithredol bellach yn llawn, gyda Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol a Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol ill dwy wedi'u penodi ym mis Medi. Penodwyd ein Pennaeth Profiad Cwsmeriaid, Naomi Lawrence ym mis Mehefin 2020, ac rydym hefyd wedi penodi Colette Fletcher yn ddiweddar fel ein Pennaeth Llywodraethu parhaol.

**9. Casgliad**

9.1. Er bod COVID-19 wedi bod yn hynod anodd i bawb, yr wyf i a'r Bwrdd wedi bod yn hapus iawn gyda'r ffordd mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymateb. Un o ganlyniadau cadarnhaol y pandemig yw bod pwysigrwydd diogelu a hyrwyddo amgylchedd naturiol Cymru yn cael ei gydnabod yn gynyddol, ac rydym wedi gallu cefnogi agenda Llywodraeth Cymru gyda'n gwaith ar Adferiad Gwyrdd, ar yr un pryd â chynnal ein gwasanaethau allweddol. Ein hymrwymiad bellach yw manteisio ar y momentwm hwn wrth i ni ddod allan o'r argyfwng, a gweithio'n ddiwyd gyda'n

partneriaid a'n rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod adferiad gwirioneddol wyrdd yn cael ei ymgorffori yn ein hymateb casgliadol.